Byw'n Iach

# SWYDDI BYW'N IACH JOBS

WWW.BYWNIACH.CYMRU
@BYWNIACHCYMRU







# Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth?
# Do you want to make a difference?

**Am wneud gwahaniaeth i fywydau trigolion lleol?**

Want to make a difference to the lives of local people?

**Yn barod i ddysgu sgiliau a all achub bywydau?**

Ready to learn skills that can save lives?

**Chwilio am gyfle i wella iechyd a lles trigolion Gwynedd?**

Looking for an opportunity to improve the health and well-being of Gwynedd residents?

**Am weithio drwy'r Gymraeg?**

Want to use your Welsh in the workplace?

**Yn barod i weithio mewn awyrgylch brwdfrydig a phositif?**

Ready to work in an enthusiastic and positive environment?

**Yn barod i weithio fel rhan o dîm ac ennill cymwysterau ychwanegol?**

Ready to work as part of a team and develop additional qualifications?






# Cynnwys:
# Content:

**02 Gwneud Gwahaniaeth** . Making a Difference

**04 Gair gan y Rheolwr Gyfarwyddwr**

A word from the Managing Director

**05 Gwybodaeth am Byw'n Iach .** About Byw'n Iach

**06 Barn ein Staff .** Opinion of our staff

**07-08 Buddiannau .** Benefits

**09 - 12 Dewch i adnabod ein staff .** Come and meet our staff

**13 - 14 Rolau yn y Gweithle .** Roles within the workplace



# Rheolwr Gyfarwyddwr . Managing Director
# Trystan Pritchard

**“Mae Cwmni Byw’n Iach yn rheoli cyfleusterau hamdden ac yn darparu gwasanaethau hamdden, ffitrwydd ac iechyd ar draws Gwynedd. Mae’n staff yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gwella iechyd a llesiant trigolion yn ddyddiol. Mae’r ethos o weithio fel tîm a gwasanaethu cymunedau lleol yn gryf iawn yn y cwmni. Ein staff yw’r adnodd pwysicaf sydd gennym ni. Mewn arolygon boddhad cwsmer, ansawdd y gwasanaeth gan ein staff sydd wastad yn derbyn y sgôr uchaf.**

**Mae’r cwmni’n cynnig amrediad eang o swyddi, yn cynnwys hyfforddi chwaraeon a ffitrwydd, gweinyddu, marchnata, datblygu chwaraeon a swyddi rheoli. Mae cyfleoedd niferus ar gyfer hunan ddatblygiad. Rydym yn cynnwys ein holl dimau yn y broses o gynllunio busnes a datblygu’r cwmni i’r dyfodol.**


**Mae patrymau gwaith amrywiol ar gael yn y timau, sy’n medru bod yn fuddiol i’r rhai sy’n cydbwyso cyfrifoldebau teulu a gwaith. Mae llesiant ein staff yn bwysig iawn i ni ac yn cael ei gefnogi mewn sawl ffordd, yn cynnwys defnydd am ddim o’r cyfleusterau hamdden ar gyfer ein staff.”**

“Cwmni Byw’n Iach manages leisure facilities and provides leisure, fitness and health services across Gwynedd. Our staff are proud of the fact that they improve the health and well-being of residents on a daily basis. The ethos of working as a team and serving local communities is very strong within the company. Our staff are the most important resource we have. In customer satisfaction surveys, the quality of service from our staff always receives the highest score.

The company offers a wide range of jobs including sports and fitness coaching, administration, marketing, sports development and management jobs. There are many opportunities for self-development. We include all of our teams in the process of business planning and developing the company for the future.

Various work patterns are available within teams, which can be beneficial for those who balance family and work responsibilities. The well-being of our staff is very important to us and is supported in many ways, including free use of the leisure facilities for our staff."

- Byw'n Iach Bangor
- Byw'n Iach Arfon, Caernarfon
- Byw'n Iach Plas Ffrancon, Bethesda
- Byw'n Iach Plas Silyn, Penygroes
- Byw'n Iach Dwyfor, Pwllheli
- Pwll Nofio Bro Ffestiniog
- Byw'n Iach Glaslyn, Porthmadog
- Byw'n Iach Penllyn, Y Bala
- Byw'n Iach Glan Wnion, Dolgellau
- Byw'n Iach Pafiliwn, Abermaw
- Byw'n Iach Bro Dysynni, Tywyn



# Gwybodaeth am Byw'n Iach
# About Byw'n Iach

**Mae Byw'n Iach.cyf yn gwmni cyfyngedig drwy warant o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Mae Byw'n Iach yn gweithredu cytundeb i reoli 11 Canolfan Hamdden yn y sir a darparu ystod o wasanaethau Chwaraeon, Iechyd a Ffitrwydd.**

**Mae'r cwmni'n cyflogi dros 250 o staff yn lleol er mwyn cynnal y gwasanaeth. Pwrpas Byw'n Iach yw "Cynnig gwasanaethau hamdden a ffitrwydd cynaliadwy o'r ansawdd uchaf i'n cymunedau, er mwyn gwella iechyd, lles, ffitrwydd a sgiliau pawb."**

**Ein gweledigaeth yw "Pob trigolyn yn gwsmer- pob teulu'n gwella eu hiechyd a lles – pob Cymuned yn elwa."**

Byw'n Iach.cyf is a company limited by guarantee that is controlled by Cyngor Gwynedd. We operate a contract to manage 11 leisure facilities and offer a range of sports, health and fitness services across the county.

The company employs over 250 staff locally to provide this service. The purpose of Byw'n Iach is "To offer sustainable leisure and fitness activities of the highest quality to our communities, in order to improve the health, well-being, fitness and skills of all."

Our vision for the company is "Every resident a customer – every family improving their health and well-being – every community benefiting."

# Barn Ein Staff
# Opinion of Our Staff

Dyma grynodeb o beth ddywedodd staff Byw'n Iach mewn arolwg ddiweddar:
Here is a summary of what Byw'n Iach staff said in a recent survey:

"Lot o gyfleoedd i mi ddatblygu'n bersonol drwy hyfforddiant"

"Lots of opportunities for me to develop personally through training"

"Mae gan Byw'n Iach dîm agos o staff a gallaf sgwrsio a rhannu profiadau"

"Byw'n Iach has a close team of staff and I can talk and share experiences"

**"Rwy'n teimlo bod ein tîm yn y ganolfan fel teulu ac rydym yn cyd-dynnu'n dda"**

**"I feel that our team at the centre is like a family and we get along well"**

"Mae fy rheolwr wastad yn gofyn os ydw i'n iawn ac yn ymdopi efo'r gwaith ac yn cynnig help os oes angen"

"My manager always asks if I'm okay and coping with the work, and offers help if needed"

# Buddiannau . Benefits

## 1 Gweithio mewn awyrgylch Gymraeg
Working in a Welsh environment

**Mae cyfle i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ar draws pob swydd, mewn unrhyw dîm neu ardal yn y Sir.**

**Mae cyfle i ddatblygu eich sgiliau ieithyddol, ac mae hyfforddiant proffesiynol ar gael.**

There is an opportunity to work through the medium of Welsh, across all jobs, in any team or area within the county.

There is an opportunity to develop your linguistic skills, with professional training available.

---

## 2 Cyfleusterau Am Ddim
Free Facilities

**Manteisio ar ddefnydd am ddim o gyfleusterau a gwasanaethau hamdden a ffitrwydd y cwmni fel aelod o staff ar gytundeb.**

Take advantage of free use of the company's leisure and fitness facilities and services as a contracted member of staff.

---

## 3 Pensiwn
Pension

**Mae Byw'n Iach yn cynnig cynllun pensiwn Llywodraeth Lleol sy'n cynnig rhai o'r telerau gorau yn y wlad.**

Byw'n Iach offers a Local Government pension scheme which offers some of the best terms in the country.

---

## 4 Beicio i'r Gwaith
Cycle to Work

**Mae'r cynllun Beicio i'r Gwaith yn caniatáu i rai gweithwyr brynu beic drwy aberthu cyflog. Mae hyn yn arbed arian iddynt yn ogystal â hyrwyddo eu hiechyd.**

The Cycle to Work scheme allows some employees to buy a bike by sacrificing salary. This saves them money and promotes their health.

# **Buddiannau** . Benefits

## 5 **Tal Gwyliau a salwch**
Holiday and Sick Pay

**25-35 diwrnod o wyliau efo tâl (ar sail swyddi llawn amser - cynyddu dros amser ac wrth symud i swyddi uwch). Pecynnau hael o ran taliadau salwch.**

25-35 days of paid annual leave (based on full-time posts - increases over time and with promotion to higher grades). Generous sickness pay packages.

---

## 6 **Tâl Mamolaeth**
Maternity Pay

**Pecynnau hael o ran tâl mamolaeth.**

Generous maternity pay packages.

---

## 7 **Cefnogaeth Iechyd**
Health Support

**Mynediad at gefnogaeth Iechyd Galwedigaethol, Gwasanaethau Cwnsela a Ffisiotherapi**

Access to Occupational Health and Counselling and Physiotherapy Services

---

## 8 **Hyfforddiant Staff**
Staff Training

**Buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant staff a chyfleodd datblygu proffesiynol parhaus gwych.**

Significant investment in staff training and excellent CPD Opportunities

# Sean Wyn Davies

Prentis Chwaraeon

Byw'n Iach

Sports Apprentice

**Helo! Sean ydw i ac rwyf yn Brentis chwaraeon yn Byw'n Iach Arfon ers mis Awst eleni. Mae'r amser wedi mynd heibio mor sydyn ac rwyf wedi mwynhau bob diwrnod hyd yn hyn. Fyswn i erioed wedi dychmygu yr holl gyfleoedd yr ydw i wedi'u cael. Rwyf erbyn hyn wedi cymhwyso fel Achubwr Bywyd ac wedi cymhwyso i fod yn hyfforddwr nofio fel rhan o fy mhrentisiaeth. Rwyf yn edrych ymlaen at gael datblygu'n bellach yma, ac yn gobeithio cyfrannu at lwyddiant y ganolfan yn y blynyddoedd i ddod!**

Hello! I'm Sean and I've been a Sports Apprentice with Byw'n Iach Arfon since August this year. The time has passed so quickly and I have enjoyed every day so far. The opportunities I have received are ones that I would never have imagined. I am now qualified as a lifeguard and qualified as a  swimming instructor as part of my apprenticeship. I am looking forward to developing further here, and hopefully contributing to the success of the centre in the years to come!



# Ffion Gwawr Williams

## Swyddog Uned Partneriaethau

## Partnerships Unit Officer

**Dwi yn gweithio i gwmni Byw'n Iach ers Medi 2022, fy swydd i fel rhan o dîm Uned Partneriaethau yw swyddog datblygu chwaraeon yn y Gymuned. Mae pob diwrnod gwaith yn wahanol a rwyf yn cael cydweithio gyda nifer o bobl a mudiadau drwy Gwynedd gyfan. Rwyf wedi cael llu o brofiadau gwahanol gan gynnwys trefnu digwyddiadau a chystadlaethau, sefydlu clybiau newydd, gwella iechyd a ffitrwydd trigolion Gwynedd.**

**Rwyf wedi gwneud nifer fawr o gyrsiau hyfforddiant yn y ddwy flynedd ddiwethaf sydd wedi galluogi i mi wella fy hyn yn fy ngwaith a profiadau yn cynnwys lefel 3 mewn hyfforddiant personol, lefel 3 Yoga, cwrs dementia a cwrs diogelu plant i enwi dim ond rhai. Rwyf yn mwynhau fy swydd yn fawr a cael cydweithio gyda eraill sydd yn rhoid helpu trigolion Gwynedd yn brif nod i'w gwaith.**

I've worked for Byw'n Iach since September 2022 in my jobs as Community Sports Development Officer within the Partnerships Unit. Every day at work is different and I work with many different people and organizations throughout Gwynedd. I've had a variety experiences from planning events and competitions, forming new clubs and improving the health and fitness of the residents of Gwynedd.

I've taken many training courses over the last two years which have allowed me to improve myself in my work and experiences, including level 3 personal training, level 3 Yoga, a Dementia course and a Children's safeguarding course to name a few. I enjoy my job and getting to work with others who make helping the residents of Gwynedd their main priority at work.



# Daniel Owen Joyce

## Dirprwy Reolwr Ardal Y De

## South Area Deputy Manager

**Ar ôl gorffen yn yr ysgol, astudiais hamdden yn y coleg am ddwy flynedd. Yna cefais swydd llawn amser fel Cynorthwydd Hamdden Bryn Hyfryd, Rhuthun lle bûm yn gweithio am 5 mlynedd, gan weithio fy ffordd i fyny i fod yn Rheolwr ar Ddyletswydd. Yna cefais swydd gyda gwneuthurwr trelars yn gweithio yn sales lle bûm yn gweithio am 22 mlynedd. Roedd gen i lawer o sgiliau trosglwyddadwy ar ôl gweithio fel hyfforddwr a Rheolwr Dyletswydd yn y ganolfan hamdden. Llwyddais i weithio fy ffordd i fyny at y Rheolwr Gwerthu gyda'r cwmni trelars.**

**Yn ystod COVID, penderfynais chwilio am her newydd a phenderfynais wneud cais am rôl Is Rheolwr Ardal gyda Byw'n Iach. Roeddwn i'n angerddol am helpu fy nghymuned ac roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi datblygu fy sgiliau ymhellach a byddai'r rhain yn trosglwyddo i'r rôl. Rwyf wedi mwynhau fy amser gyda Byw'n Iach. Mae'r staff yn frwdfrydig, yn gweithio'n galed, ac mae pawb eisiau eich helpu.**

After finishing school, I studied leisure in college for two years. I then got a full-time job as a Leisure Attendant at Bryn Hyfryd, Ruthin where I worked for 5 years, working my way up to being a Duty Manager. I then got a job with a trailer manufacturer working in sales where I worked for 22 years. I had many transferable skills having worked as a coach and Duty Manager at the leisure centre. I managed to work my way up to Sales Manager with the trailer manufacturer.

During COVID, I decided to look for a new challenge and decided to apply for the role of Assistant Area Manager with Byw'n Iach. I was passionate about helping my community and felt I had developed my skills further and these would transfer to the role. I have really enjoyed my time with Byw'n Iach. The staff are enthusiastic and hardworking- everyone wants to help you...



# Ceri Thomas

## Cymhorthydd Hamdden
## Byw'n Iach Glan Wnion, Dolgellau
## Leisure Assistant

**Helo! Ceri ydw i. Mi wnes i ddechrau gweithio i Byw'n Iach yn 27 oed. Y rôl ges i ar yr adeg yma oedd Cymhorthydd Hamdden. Pan ddechreuais, nid oedd gennyf lawer o gefndir gyda ffitrwydd. Mae Byw'n Iach wedi rhoi y siawns i mi ddysgu ac ehangu fy ngwybodaeth i hyfforddi mewn ffitrwydd. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi cael y cyfle i wneud nifer o gymwysterau gyda'r cwmni. Rwyf nawr yn Rheolwr ar Ddyletswydd achlysurol, Cymhorthydd Hamdden ac yn Hyfforddwr Ffitrwydd.**

Hello! I'm Ceri. I started working for Byw'n Iach at the age of 27. The role I had at this time was Leisure Assistant. When I started, I didn't have much background with fitness. I was not very confident. Byw'n Iach has given me the chance to learn and expand my knowledge to train in fitness. In addition to this, I have had the opportunity to do several qualifications with the company. I am now a Relief Duty Manager, a Leisure Assistant, and a Fitness Trainer.



# Rolau yn y gweithle
# Roles within the workplace



## Yn ein canolfannau . Within our centres

Mae sawl rôl rheng flaen amrywiol yn ein canolfannau. Mae swyddi Cymorthyddion Hamdden, Rheolwyr ar Ddyletswydd, Hyfforddwyr Ffitrwydd a Derbynnydd. Mae cyfle i weithio yn llawn amser, yn rhan amser, neu yn achlysurol yn ein canolfannau. Mae ein canolfannau yn amrywio rhwng canolfannau sych a gwlyb, ac mae gofyn am gymhwyster cenedlaethol achubwr bywyd i weithio mewn canolfan wlyb.

There are many different frontline roles within our Byw'n Iach centres. There are jobs for Leisure Assistants, Duty Managers, Fitness Trainers within our centres. There is an opportunity to work full-time, part-time, or casually within our centres. Our centres vary between dry and wet centres, and a national lifeguard qualification is required to work in a wet centre.



## Tîm Rheoli . Management Team

Mae swyddi yn y Tîm Rheoli'n cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, tair swydd Rheolwr Ardal a thair swydd Dirprwy Reolwr Ardal, Rheolwr Busnes, Rheolwr yr Uned Partneriaethau a Rheolwr Rhaglen. Mae rhai o'n Rheolwyr wedi cychwyn gweithio yn y canolfannau fel Prentisiaid ac eraill wedi symud i'r cwmni o feysydd eraill.

The Management Team comprises of the Managing Director, three Area Managers, three Deputy Area Managers, a Business Manager, Partnership Unit Manager and Programme Manager. Some of our mangers have developed from Apprentices within the centres whilst others have joined us from other sectors.



## Tîm Busnes . Business Team

Mae'r swyddi yn y Tîm Busnes yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â Gweinyddiaeth Busnes yn ogystal â swyddi yn y maes Cyfathrebu a Marchnata.

Posts within the Business Team includes those focused on Business Administration as well as Marketing and Communication roles.



## Tîm Rhaglenni . Programme Team

Mae'r swyddi yn y tîm yn cynnwys Cydlynydd a Swyddogion Cyfeirio i Ymarfer, Hyfforddwyr Ffitrwydd, Cydlynwyr a Hyfforddwyr Gymnasteg a Swyddog Datblygu Nofio.

Posts within the team include Exercise Referral Officers and Coordinator, Fitness Instructors, Gymnastics Instructors and Coordinators and a Swimming Development Officer.



## Uned Partneriaethau . Partnership Unit

Mae Swyddogion yn yr Uned yma yn gweithio yn y canolfannau, allan yn y gymuned ac mewn ysgolion. Maen nhw'n cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid i helpu rhai sy’n wynebu rhwystrau i fod yn actif ac yn datblygu cyfleoedd newydd.

Officers within this team work within centres, out in the community and within local schools. They work alongside a wide range of partners to help those facing barriers to become active through developing new opportunities.





**Diddordeb gweithio i ni?**

**Cadwch lygad allan ar ein gwefan am swyddi gwag - https://www.bywniach.cymru/**

**Edrychwch ar ein cyfrifon cymdeithasol am gyrsiau Achub Bywyd NPLQ os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio yn ein canolfannau gwlyb.**

**Gyrrwch eich CV a neges atom ni ac mi wnawn ni gysylltu â chi pan fydd cyfle addas yn codi: cyswllt@bywniach.cymru**

Interested in working for us?

Have a look at our website for current vacancies - https://www.bywniach.cymru/en/

Keep an eye on our social media pages for NPLQ Lifeguard courses if you are interested in working within our wet centres.

Send us your CV and a short message and we'll get in touch when suitable opportunities arise.

# Byw'n Iach

Byw'n Iach Cyf. (Ltd),
Byw'n Iach Arfon,
Ffordd Bethel,
Caernarfon,
LL55 1HW

www.bywniach.cymru
cyswllt@bywniach.cymru
@bywniachcymru